**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG**

**185 – Rheoliadau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (Diwygiadau etc) (Ymadael â'r UE) 2020**

*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 14 Hydref 2020*

| **Sifftio** | |
|---|---|
| Yn destun sifftio yn Senedd y DU? | Nac ydy |
| Gweithdrefn: | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Amh |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Amh |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | Amh |
| Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: | Papur 63 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | SICM(5)34 |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Amh |
| Gweithdrefn | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |

**Cefndir**

Bwriedir y bydd y Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 a pharagraff 21(b) o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno, ac adran 41(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020.

**Crynodeb**

Mae'r Rheoliadau hyn yn mynd i'r afael â diffygion yn neddfwriaeth y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin, sy'n deillio o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd. Bydd y newidiadau hyn yn sicrhau bod pysgota yn nyfroedd y DU yn parhau i gael ei reoleiddio mewn modd cynaliadwy ar ôl ymadael â'r UE.

Mae'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin yn gosod dull cyffredin o reoli pysgodfeydd yn gynaliadwy ar draws yr UE a'i ddyfroedd. Gwnaed nifer o offerynnau statudol yn 2019 o dan bwerau yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 a ddiwygiodd ddeddfwriaeth Polisi Pysgodfeydd Cyffredin yr UE a fyddai'n dod yn 'gyfraith yr UE a ddargedwir' ar y diwrnod ymadael. Diben y diwygiadau oedd sicrhau y byddai deddfwriaeth y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin a ddargedwir yn gweithredu'n effeithiol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Ar ôl i'r cytundeb ymadael â'r UE gael ei gadarnhau, bydd deddfwriaeth Polisi Pysgodfeydd Cyffredin yr UE bellach yn dod yn gyfraith yr UE a ddargedwir ar ddiwedd y Cyfnod Pontio ac mae'n ofynnol i'r Rheoliadau hyn sicrhau bod cyfraith yr UE a ddargedwir yn gweithredu'n effeithiol o'r adeg honno ymlaen.

Mae angen y Rheoliadau mewn perthynas â thri chategori o welliannau:

1. Mae angen gwneud diwygiadau i gyfrif am ddeddfwriaeth Polisi Pysgodfeydd Cyffredin newydd yr UE sydd wedi dod i rym ers i'r offerynnau statudol diwygio blaenorol gael eu drafftio i baratoi ar gyfer diwrnod ymadael.
2. Mae angen gwneud diwygiadau o ganlyniad i'r cytundeb ymadael â'r UE.
3. Mae angen gwneud diwygiadau i offerynnau statudol diwygio blaenorol, gan gynnwys diwygiadau i gywiro mân wallau.

**Datganiad gan Lywodraeth Cymru**

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol wedi gwneud y sylwadau a ganlyn mewn perthynas â datganiad Llywodraeth Cymru, dyddiedig 16 Hydref 2020, am effaith y Rheoliadau hyn:

Mae'r Rheoliadau hyn yn creu swyddogaethau y gall Gweinidogion Cymru a Gweinidogion y DU eu harfer ar yr un pryd. O dan Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006), ni chaiff y Senedd ddileu nac addasu swyddogaethau cydredol o'r fath (i'r graddau y maent yn cael eu harfer gan Weinidogion y DU) heb gydsyniad Llywodraeth y DU. Mae datganiad ysgrifenedig Llywodraeth Cymru yn dweud bod Llywodraeth Cymru mewn trafodaethau â Llywodraeth y DU mewn perthynas â Gorchymyn adran 109 i ddiwygio Atodlen 7B o Ddeddf 2006 er mwyn negyddu'r cyfyngiad posibl ar gymhwysedd Senedd Cymru yn y dyfodol.

**Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd

(Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

**Cynnig cydsyniad o dan Reol Sefydlog 30A.10**

Gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol gerbron y Senedd ar 22 Hydref 2020, ar y sail bod y Rheoliadau yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd (yn yr achos hwn, adrannau 30, 238 a 278 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009).

Mewn llythyr at y Pwyllgor, dyddiedig 22 Hydref 2020, dywedodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig fod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol wedi'i osod, ond soniodd ynghylch a fyddai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cynnig i drafod y Memorandwm.